Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (hyd at 2021)

# Canllawiau Cynllunio Atodol










# Lleoliadau Cynaliadwy

## Mehefin 2023

Mae gwybodaeth bellach ar gael trwy gysylltu â:

Polisi Cynllunio
CBS Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01633 648039
Ebost: ldp@torfaen.gov.uk

This document is available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Pwrpas ac Amcanion | 3 |
| | Statws Canllawiau Cynllunio Atodol | 4 |
| 3. | Cyd-destun Polisi Lleoliadau Cynaliadwy | 4 |
| | Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) | 4 |
| | Polisi Cynllunio Cymru Arg. 11 (2021) | 5 |
| | Adeiladu Lleoedd Gwell (2020) | 7 |
| | Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (2013) | 7 |
| | Canllawiau Deddf Teithio Llesol (2021) | 8 |
| 4. | Cynaliadwyedd Lleoliad | 8 |
| | Categori Cynaliadwyedd 1 Agosrwydd at Gyfleusterau Dyddiol Arferol | 9 |
| | Categori Cynaliadwyedd 2 Cyfleoedd Teithio Llesol | 10 |
| | Ystyriaethau Cynaliadwyedd Lleoliadol CBST | 11 |
| 5. | Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt | 12 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Torfaen yn 2013, mae polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol wedi cael eu diweddaru'n sylweddol gyda ffocws allweddol ar gynaliadwyedd. Mae'r dull hwn yn ymgorffori gofynion Deddf Teithio Llesol 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ogystal ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Torfaen. Elfen sylfaenol o gynaliadwyedd mewn perthynas â chynigion datblygu yw **lleoliad** gyda pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cynyddu'r pwyslais ar leihau pellteroedd teithio a chael gwared ar ddibyniaeth ar deithiau car preifat. Mae hyn wedi ei ategu'n fwyaf diweddar gan Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn Chwefror 2023

1.2 Er bod Polisi S2 (Datblygu Cynaliadwy) CDLl Torfaen yn croesawu'r nod hwn, mae'r Cyngor wedi cydnabod na allai pob ardal ddaearyddol yn ein haneddiadau presennol alluogi preswylwyr i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol heb ddefnyddio car. Mae penderfyniadau cynllunio diweddar y Cyngor wedi codi'r bar yn hyn o beth, gyda Chynaliadwyedd lleoliad yn cael mwy o bwysau fel ystyriaeth berthnasol (fel nodir ym Mholisi S1b)) gydag effaith o ganlyniad ar y rhagdybiaeth o blaid datblygu o fewn ffiniau aneddiadau. Mae'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hon felly'n nodi dull y Cyngor o asesu p'un a yw safle datblygu arfaethedig mewn 'lleoliad cynaliadwy' a all gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynaliadwyedd cyffredinol cymunedau a mynd ar drywydd ffyrdd o fyw sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn Nhorfaen.

# 2. Pwrpas ac Amcanion

2.1 Pennwyd ffiniau'r aneddiadau a nodwyd o dan Bolisi S1 y CDLl (Ffiniau Trefol) a fabwysiadwyd gan ymagwedd ofodol resymegol tuag at gyfyngu aneddiadau yn Nhorfaen, fodd bynnag, mae cyflwyno Dyfodol Cymru a PPW11, ochr yn ochr â'r datganiadau cenedlaethol a lleol ar yr argyfwng hinsawdd a'r ffocws cynyddol ar y gofyniad am ddatblygu cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio wedi arwain at sylweddoli nad yw pob ardal ddaearyddol o fewn ffiniau'r aneddiadau yn cael digon o wasanaethau a chyfleusterau er mwyn bodloni gofynion cynaliadwyedd. Felly, byddai cynigion ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardaloedd o'r fath yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol a pholisïau cenedlaethol a fabwysiadwyd.

2.2 Cynhyrchwyd yr CCA hwn i gefnogi ac ychwanegu manylion at y polisïau o fewn Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (Rhagfyr 2013), a ble mae hynny'n bosibl, ystyried pwyslais newidiadau a diweddariadau polisi cynllunio cenedlaethol mwy diweddar. Mae'n nodi materion cynaliadwyedd allweddol sy'n benodol berthnasol i leoliad datblygiad newydd gan ddod i ben gyda chyfres o ystyriaethau sydd, os cânt eu bodloni, yn dangos bod lleoliad yn cydymffurfio â meini prawf Polisïau S2. B) a S3 a). Er y cydnabyddir y gellid cymhwyso ystyriaethau amgen, mae'r Cyngor wedi cymryd y data mwyaf diweddar sydd ar gael wrth lunio'r SPG hwn ac mae'n ceisio sefydlu dull rhagweithiol ond pragmatig o effeithio ar newid gwirioneddol yn y ffordd mae trigolion Torfaen yn teithio.

2.3 Bydd y gallu i gydymffurfio â pholisïau S2 b) a S3 a) a fabwysiadwyd ac a ddisgrifir yn y CCA yma'n ystyriaeth berthnasol a fydd yn cael pwyslais priodol i amgylchiadau unigol cynnig / safle. Ble mae mwy o bwyslais yn cael ei roi i ystyriaethau perthnasol eraill, bydd y casgliad yma'n cael ei esbonio yn y llythyr cyngor cyn cais neu'r adroddiad ar y cais cynllunio fel sy'n briodol. Yn yr holl amgylchiadau, byddai'r Cyngor yn annog ymgysylltiad ar adeg gynharaf posibl o ystyried y safle gyda chais am gyngor cyn cais

2.4 Mae cyflenwad tai'n cael ei fonitro trwy lwybr tai, fel sydd yn y CDLl a fabwysiadwyd, ac yn destun adroddiad yn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl. Cyhoeddwyd AMB diweddaraf y Cyngor yn Hydref 2022 ac ynddo mae Tabl 3.3 yn dangos bod disgwyl y bydd, dros y pum mlynedd nesaf, 376 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu hadeiladu yn

Nhorfaen. Mae hyn llawer uwch na Gofyniad Blynyddol ar Gyfartaledd (GBG) CDLl Torfaen o 308 o gartrefi. Mae cyflenwad tai disgwyliedig ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig felly'n ddigonol gyda digon o ddarpariaeth dros ben ar gyfer rhywfaint o ffoaduriaid, sy'n caniatáu ystyriaeth o safleoedd sy'n cydymffurfio â'r safonau uchaf o gynaliadwyedd. Bydd unrhyw newidiadau tymor hirach yn cael eu trin yn yr adolygiad presennol a chynhyrchiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

2.5 Mae'r SPG hwn felly yn berthnasol i geisiadau cynllunio ar gyfer **pob** datblygiad preswyl **newydd** o fewn y ffin drefol a ddiffinnir gan Bolisi S1 y CDLl a fabwysiadwyd, gan gynnwys ceisiadau Adran 73 i ymestyn cyfnod amser caniatâd. Nid yw'n berthnasol i anheddau newydd nac estyniadau i anheddau sy'n bodoli eisoes, boed hynny mewn lleoliadau trefol neu wledig. Fe'i paratowyd fel canllaw i helpu tirfeddianwyr a datblygwyr i lunio Datganiad Lleoliad Cynaliadwy i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio ac ymholiadau cyn ymgeisio, a fydd yn cynorthwyo asesu safle datblygu posibl gyda'r bwriad iddo gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy a'r tebygolrwydd na fydd angen i ddeiliaid y dyfodol fod yn ddibynnol ar ddefnyddio ceir preifat. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i asesu ceisiadau am gyngor cyn ymgeisio a cheisiadau cynllunio a gyflwynir ar gyfer datblygiadau preswyl mewn ardaloedd trefol; a gan Arolygwyr wrth benderfynu ar apeliadau cynllunio. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan ddarpar ymgeiswyr, asiantau, penseiri, aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cais, Aelodau etholedig o'r Cyngor a chyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau.

**Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol**

2.6 Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y gall SPG mabwysiedig fod yn ystyriaeth berthnasol ar yr amod ei fod yn gyson â'r cynllun datblygu. Mae'r pwysau a roddir i'r SPG wrth wneud penderfyniad yn cynyddu os yw wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartïon â diddordeb, ac os yw wedi bod yn destun penderfyniad gan y Cyngor.

2.7 Cymeradwywyd drafft o'r CCA yma ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 28ain Chwefror 2023 ac aeth yr ymgynghoriad o 1af Mawrth 2023 tan 13eg Ebrill 2023. Mae sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hystyried mewn Adroddiad ar Ymgynghoriad ac mae diwygiadau wedi eu cynnwys yn y fersiwn derfynol hon a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 13eg Mehefin 2023. Mae'r CCA yma wedi ei baratoi yn unol â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn:

- Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021)
- Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (Rhagfyr 2013)

a chanllawiau sydd wedi'u nodi yn:

- Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)
- Polisi Cynllunio Cymru 11eg Argraffiad (Chwefror 2021)
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

# 3. Cyd-destun Polisi Lleoliadau Cynaliadwy

3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni ei amcanion datblygu cynaliadwy (neu les). Nod Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021) yw sicrhau bod polisïau a phenderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar lesiant ac yn darparu datblygiad newydd o ansawdd uchel sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb. Dwy brif thema yw 'y datblygiad cywir yn y lle iawn' a 'lleihau'r angen i deithio'.

**Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)**

3.2 Cymru'r Dyfodol (2021) yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod o flaenoriaeth genedlaethol. Mae Polisi 2 (Creu Lleoedd Strategol) yn cadarnhau pwysigrwydd creu lleoedd fel sail ar

gyfer penderfyniadau cynllunio, gyda datblygiadau angen cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymdogaethau cynaliadwy, sy'n cynnwys defnydd cymysg o fewn pellteroedd y gellir eu cerdded, defnydd effeithlon o dir gan wneud y mwyaf o amrywiaeth o fathau o dai ac wedi'i gefnogi gan seilwaith gwyrdd cwbl integredig.

<u>*Polisi 2 - Llunio Twf Trefol ac Adfywio - Creu Lleoedd Strategol*</u>
*Dylai twf ac adfywiad trefi a dinasoedd gyfrannu'n gadarnhaol tuag at adeiladu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau llesol ac iach, gyda chymdogaethau trefol sy'n gryno ac yn gerddadwy, wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd.*
*Dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar yr egwyddorion creu lleoedd strategol canlynol:*
*• creu cymysgedd cyfoethog o ddefnyddiau;*
*• darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau;*
*• adeiladu lleoedd ar raddfa y gellir ei cherdded, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd;*
*• cynyddu dwysedd y boblogaeth, gyda datblygiadau'n cael eu hadeiladu ar ddwyseddau trefol a all gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol;*
*• sefydlu rhwydwaith athraidd o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur datblygiad;*
*• hyrwyddo dull gweithredu ar sail plot i ddatblygu, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu lleiniau bach, gan gynnwys ar gyfer adeiladwyr masnach a hunan-adeiladwyr; ac*
*• integreiddio seilwaith gwyrdd, wedi'i lywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd yr awdurdod cynllunio.*
*Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio cynlluniau datblygu i sefydlu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas. Dylai hyn gael ei gefnogi gan fframwaith gofodol sy'n llywio twf ac adfywio, ac yn sefydlu strwythur lle gall trefi a dinasoedd dyfu, esblygu, arallgyfeirio a ffynnu dros amser.*

**Polisi Cynllunio Cymru Arg. 11 (Chwefror 2021)**

3.3 Mae PPW11 yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol ac yn cynnwys ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n nodi canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ar ystod eang o bynciau defnydd tir, gan gynnwys cynnal cymunedau a hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach (tt 2.15). Mae'n cadarnhau bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun mabwysiedig, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

3.4 Dylai lleoliad datblygiad flaenoriaethu safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen sydd â seilwaith a mynediad addas trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy yn darparu cyd-destun ar gyfer gwerthuso meini prawf cynaliadwyedd cynllun sy'n seiliedig ar Egwyddorion Cynllunio Allweddol tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy; manteisio i'r eithaf ar adnoddau; hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach; creu a chynnal cymunedau; a gwneud y mwyaf o ddiogelu'r amgylchedd a chyfyngu ar yr effaith amgylcheddol.

<u>Creu a Chynnal Cymunedau:</u>
- Galluogi'r Gymraeg i ffynnu
- Dwyseddau datblygu priodol
- Cartrefi a swyddi i ddiwallu anghenion cymdeithas
- Cymysgedd o ddefnyddiau
- Cynnig profiadau diwylliannol
- Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

<u>Tyfu Ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy:</u>
- Meithrin gweithgarwch economaidd
- Galluogi cyfathrebu hawdd
- Cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun
- Bywiog a deinamig
- Ymaddasol i newid

- Croesawu technoleg glyfar ac arloesol

Manteisio i’r Eithaf ar Adnoddau:

- Manteisio i’r eithaf ar adnoddau naturiol
- Atal gwastraff
- Blaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sy'n bodoli eisoes
- Datgloi potensial ac yn adfywio
- O ansawdd uchel ac wedi'i adeiladu i bara


Sicrhau Amddiffyn yr Amgylchedd i'r Eithaf a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol:

- Bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn
- Tirweddau unigryw ac arbennig
- Seilwaith gwyrdd integredig
- Seinweddau priodol
- Lleihau risgiau amgylcheddol
- Rheoli adnoddau dŵr yn naturiol
- Aer glân
- Lleihau llygredd cyffredinol
- Gwydn rhag newid yn yr hinsawdd
- Amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig

Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach:

- Man gwyrdd hygyrch ac o ansawdd uchel
- Hygyrch trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Ddim yn ddibynnol ar gar
- Lleihau'r angen i deithio
- Darparu cydraddoldeb mynediad
- Teimlo'n ddiogel ac yn gynhwysol
- Cefnogi poblogaeth amrywiol
- Cysylltiadau da
- Mynediad cyfleus i nwyddau a gwasanaethau
- Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol

3.5 Mae PPW11 yn ceisio hwyluso datblygiadau sydd wedi'u lleoli yn y mannau cywir, lle gellir eu cyrchu yn hawdd drwy ddulliau teithio cynaliadwy a heb fod angen car; maen nhw wedi'u cynllunio yn y fath fodd sy'n eu hintegreiddio â defnydd tir a chymdogaethau presennol; ac yn ei gwneud yn bosibl i bob taith fer o fewn a thu hwnt i'r datblygiad gael ei gwneud yn hawdd trwy gerdded a beicio. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn ffurfioli'r dull hwn gyda cherdded a beicio yn brif flaenoriaeth ac yna defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yna cerbydau allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau modur eraill. Mae PPW yn nodi y dylid defnyddio'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i atal datblygiadau sy'n ddibynnol ar geir mewn lleoliadau anghynaladwy.




**Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)**

3.6 Cyhoeddwyd y ddogfen polisi cynllunio atodol hon yng ngoleuni pandemig Covid 19 i egluro wyth blaenoriaeth polisi cynllunio allweddol yn ystod y cyfnod adfer. Amlygwyd yr angen am leoedd o ansawdd da i bobl fyw, gweithio ac ymlacio ynddynt gyda mwy o ffocws ar y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Un cyfeiriad allweddol oedd targedu twf i leoliadau cynaliadwy ac atal creu datblygiadau dibynnol ar geir.

**Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (2013)**

3.7 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cynnwys nifer o bolisïau perthnasol sy'n ymwneud â lleoliad a natur datblygiadau. Mae Polisi S1 yn gosod gerbron y dylai'r rhagdybiaeth o blaid datblygiad mewn ardal drefol gynnwys ystyriaethau cynllunio perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfiad â pholisïau eraill yn y CDLl a fabwysiadwyd yn ogystal â pholisïau Cymru'r Dyfodol a chyfarwyddyd PCC11. Mae Polisi S2 (Datblygu Cynaliadwy) yn cynnwys set o feini prawf y dylid eu dangos gan gynigion datblygu, gan gynnwys hyrwyddo'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy; lleihau'r ddibyniaeth ar y car modur preifat ac annog defnydd o ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy; gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig; defnyddio tir a seilwaith cymunedol presennol yn effeithlon; technegau adeiladu cynaliadwy; a hyrwyddo twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy. Mae Polisi S3 (Newid Hinsawdd) hefyd yn cyfeirio at sicrhau bod lleoliad datblygiad yn gynaliadwy.

*Polisi S1 (Ffiniau Trefol)*
*Nodir ffiniau trefol ar Fapiau'r Cynigion i hyrwyddo defnydd llawn ac effeithiol tir trefol trwy ddiffinio'r ffin rhwng ardaloedd trefol a chefn gwlad er mwyn:*
*b) Diffinio'r ardal drefol, ble mae yna ragdybiaeth o blaid datblygiad, gan gymryd- i ystyriaeth ystyriaethau cynllunio perthnasol.*

*Polisi S2 Datblygu Cynaliadwy*
*Bydd angen i gynigion datblygu ddangos eu bod wedi ystyried yr egwyddorion canlynol a lle bo'n berthnasol eu bod nhw yn: -*
*a) Cyfrannu at adfywio cymunedau presennol;*
*b) Bodloni blaenoriaethau trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith a hyrwyddo hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys lleihau'r ddibyniaeth ar y car modur preifat ac annog defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy;*
*c) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;*
*d) Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir;*
*e) Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r seilwaith cymunedol presennol;*
*f) Defnyddio technegau adeiladu cynaliadwy;*
*g) Hyrwyddo twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy; ac*
*h) Wedi'u lleoli o fewn y Ffin Drefol oni bai ei fod yn ddatblygiad derbyniol yng nghefn gwlad.*

*Polisi S3 Newid yn yr Hinsawdd*
*Bydd cynigion datblygu yn ceisio lliniaru achosion newid hinsawdd pellach ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol; a byddant yn cael eu cefnogi pan fyddant yn dangos ystyriaeth o'r hierarchaeth meini prawf canlynol (lle bo'n briodol):*
*a) Sicrhau bod penderfyniadau lleoliadol yn gynaliadwy ac osgoi ardaloedd sy'n agored i lifogydd oni bai bod polisi cynllunio cenedlaethol yn cyfiawnhau hynny...*

3.8 Rhestrir polisïau perthnasol eraill fel a ganlyn a gellir eu gweld yn llawn drwy https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/Adopted-Torfaen-LDP-Writen-Statement.pdf

- S4 Creu Lleoedd / Dylunio Da
- A8 Rhwymedigaethau Cynllunio
- BW1 Polisi Cyffredinol - Cynigion Datblygu
- H5 Darpariaeth ar gyfer Hamdden, Mannau Agored, Cyfleusterau Hamdden a Rhandiroedd
- RLT8 Canolfannau Siopa Lleol a Chymdogaeth
- CF3 Cyfleusterau Cymunedol

**Canllawiau Deddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021)**

3.9 Mae dogfen Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn nodi gweledigaeth ar gyfer *“cerdded a beicio i fod y dull naturiol o ddewis ar gyfer teithiau byr bob dydd, neu fel rhan o daith hirach mewn cyfuniad â dulliau cynaliadwy eraill”*. Mae'n diffinio teithio llesol fel *“cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol i gyrchfan e.e. gwaith, ysgol a chyfleusterau addysgol eraill, siopau, cyfleusterau hamdden, teithio i gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus - hefyd at ddibenion hamdden”.*

## 4. Cynaliadwyedd Lleoliad

4.1 Datblygwyd yr SPG hwn yn seiliedig ar ystyried canllawiau creu lleoedd a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru a chyfarwyddyd gan Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), ‘Cynllunio i Gerdded’ (2015). Mae croeswiriad ar gyfer cysondeb hefyd wedi'i gynnal gydag Atodiad 6 Safonau Parcio CBST / CSS Cymru - Cymru 2014 a Chanllawiau Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer Campau a Chwarae Awyr Agored a Chymru 2017.

4.2 O fewn y cyd-destun creu lleoedd, mae tair egwyddor allweddol yn berthnasol:

- **Lleoliad:** Mae angen lleoedd i dyfu a datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cynnal ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes ac sydd â chysylltiadau da. Dylid cynllunio lleoliad tai, cyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chyfleusterau eraill i helpu i leihau'r angen i deithio.

- **Symudiad:** Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach ac mae gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus ac arosfannau wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.

- **Defnyddiau Cymysg:** Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a bro gyhoeddus fywiog.

4.3 Dylai cynaliadwyedd lleoliad gael ei ystyried gan ddarpar ymgeiswyr i gyd-fynd a chefnogi eu ceisiadau cynllunio. Dylai fod ar ffurf Datganiad Lleoliadau Cynaliadwy sy'n mynd i'r afael

â'r categorïau cynaliadwyedd isod ac yn nodi sut y bodlonir yr ystyriaethau. Gellir defnyddio'r Datganiad hefyd i gyfiawnhau cynigion mewn lleoliadau penodol ac i nodi unrhyw welliannau neu fesurau lliniaru arfaethedig.

4.4 Pan fydd y Cyngor yn ystyried hyn, byddwn yn sefydlu cyd-destun cychwynnol pob safle drwy ystyried yr egwyddorion creu lleoedd uchod a chymryd i ystyriaeth natur y safle a'i leoliad mewn perthynas â'r ffin drefol. Byddwn hefyd yn nodi haen yr anheddiad mae'r safle'n berthnasol iddi yn unol ag Arfarniad diweddaraf y Cyngor o Aneddiadau Cynaliadwy a fydd yn rhoi syniad o gydymffurfiaeth debygol y lleoliad ehangach ag egwyddorion cynaliadwyedd a Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Cynllunio PPW11. Byddwn wedyn yn ystyried yn benodol y ddau brif gategori fel a ganlyn:

**Categori Cynaliadwyedd 1: Agosrwydd at Gyfleusterau Dyddiol Arferol**

4.5 Mae Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn nodi mai *“patrymau o ddefnydd o dir, ac, yn arbennig, dwyster ardaloedd preswyl a defnyddiau cymysg yw’r prif bethau sy’n penderfynu faint mae pobl yn cerdded”* (Cynllunio ar gyfer Cerdded (CIHT, 2015). Maen nhw’n esbonio ymhellach... *“Y patrymau defnydd tir sydd fwyaf ffafriol i gerdded yw... cymysg o ran defnydd ac maen nhw’n debyg i glytweithiau o “gymdogaethau cerddadwy”, gyda dalgylch nodweddiadol o tua 800m, neu daith gerdded 10 munud”*.

4.6 Mae Cyfarwyddyd ar gyfer Campau a Chwarae Awyr Agored Cymru (2017) gan Feysydd Chwarae Cymru yn nodi y dylai hygyrchedd i nifer o deipolegau awyr agored fod o fewn pellter cerdded o 800 metr. Dim ond mannau chwarae ag offer yn y gymdogaeth a meysydd chwaraeon awyr agored sy’n cael eu hystyried yn dderbyniol y tu hwnt i 800 metr hyd fwyafswm o 1200 metr. Mae Safonau Parcio Cymru yn gosod gerbron asesiad o gynaliadwyedd yn Atodiad 6 ble gall hygyrchedd at gyfleusterau lleol, gwasanaethau bysiau a llwybr seiclo leihau’r gofyn i barcio ar y stryd. Y pellter mwyaf i gael ‘credyd’ cynaliadwyedd yw 800 metr i gyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus gyda mwyafswm o 200 metr i lwybr seiclo dynodedig.

4.7 At ddibenion yr CCA hwn, byddai mwyafswm pellter cerdded 800 metr rhwng cartref newydd a chyfleusterau / gwasanaethau dyddiol yn ddelfrydol i roi cyfle realistig ac anogaeth i deithio heb gar. Bydd pellterau’n fwy na 800 metr yn cael eu pwyso fel rhan o’r ystyriaeth o gynaliadwyedd yn gyfan ynglŷn â lleoliad y safle ac amgylchiadau unigol y safle a / neu’r cynnig.

4.8 Nodir gwasanaethau / cyfleusterau dyddiol nodweddiadol fel ysgolion, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, meddygfeydd, ysbytai, optegwyr, deintyddion, fferyllfeydd, swyddfeydd post, llyfrgelloedd, siopau cyfleustra, gorsafoedd petrol, lleoliadau gofal plant, mannau chwarae, caeau chwarae a rhandiroedd. Er y cydnabyddir nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o wasanaethau / cyfleusterau, ystyrir ei bod yn cynrychioli ystod resymol o gyrchfannau nodweddiadol a fyddai'n cynnwys cymdogaeth gymharol gynaliadwy ac a allai gael effaith gadarnhaol ar leihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn car yn unol â'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio (PPW11, 2021).

4.9 Ar gyfer pob safle, dylid mesur pellteroedd ar hyd llwybrau troed a llwybrau sy'n cynrychioli'r llwybr cerdded byrraf, wedi’u cymryd o bwynt pellaf y safle i fynedfa'r gyrchfan. Mae'r Cyngor yn defnyddio system GIS gyda'r cyfleusterau hyn wedi'u plotio ar haenau i alluogi mesur pellter o safle datblygu posibl i gyfleuster. Mae’r wybodaeth leoliadol hon wedi cael ei dyblygu ar system GIS sy'n wynebu'r cyhoedd o'r enw OpusMap i alluogi ymgeiswyr a chynigwyr safleoedd i nodi cyfleusterau o'r fath. Mae dolen i OpusMap ar dudalen CCA ar wefan y Cyngor a hefyd yn Adran 5 y CCA hwn. Nodwch os gwelwch yn dda mai’r ffynhonnell yma o wybodaeth yw’r data mwyaf diweddar sydd gennym ond dylai defnyddwyr ei wirio i sicrhau cywirdeb ‘ar lawr gwlad’.Mae system GIS y Cyngor ac OpusMap yn cael eu hysbysu fel a ganlyn:

| Cyfleuster / Gwasanaeth | Ffynhonnell Wybodaeth | Diweddarwyd diwethaf |
|---|---|---|
| Rhandiroedd | Cefn Gwlad Torfaen | 03/02/2023 |
| Fferyllfeydd | Gwefan NHS Direct | 03/02/2023 |
| Lleoliadau Gofal Plant | Gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | 03/02/2023 |
| Mannau Chwarae Plant | Cefn Gwlad Torfaen | 03/02/2023 |
| Canolfannau Cymunedol | Torfaen.gov | 03/02/2023 |
| Siopau Cyfleuster | Yell.com/Google Maps | 03/02/2023 |
| Deintyddion | Gwefan NHS Direct | 03/02/2023 |
| Meddygfeydd | Gwefan NHS Direct | 03/02/2023 |
| Ysbytai | Gwefan NHS Direct | 03/02/2023 |
| Canolfannau Hamdden | Hamdden Torfaen | 03/02/2023 |
| Llyfrgelloedd | Torfaen.gov | 03/02/2023 |
| Optegwyr | Gwefan NHS Direct | 03/02/2023 |
| Gorsafoedd Petrol | Yell.com/Google Maps | 03/02/2023 |
| Swyddfeydd Post | Yell.com/Google Maps | 03/02/2023 |
| Ysgolion | Addysg Torfaen | 03/02/2023 |
| Caeau Chwaraeon | Cefn Gwlad Torfaen | 03/02/2023 |

**Categori Cynaliadwyedd 2: Cyfleoedd Teithio Llesol**

4.10 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn golygu mai cerdded a beicio yw'r opsiwn a ffafrir ar gyfer teithiau byrrach, yn enwedig teithiau bob dydd, fel yn ôl ac ymlaen i weithle neu siopau a gwasanaethau. Mae'n nodi y dylai safleoedd datblygu ddarparu cyfleoedd realistig ar gyfer cerdded a beicio, ar gyfer teithiau hamdden a theithiau pwrpasol i gysylltu â gwasanaethau a chymunedau.

4.11 Mae asesu lleoliad ar gyfer cynaliadwyedd yn hyn o beth yn cael ei wneud drwy:

- cysylltedd diogel safle â llwybrau troed cerddwyr fel rhan o rwydwaith ehangach (ansawdd arwyneb, lled, golau, graddiant, diffyg rhwystrau e.e. prif ffyrdd)
- cysylltedd diogel safle â Llwybr Teithio Llesol presennol neu raglenedig fel y dynodwyd gan y Cyngor (ansawdd arwyneb, lled, golau, graddiant, diffyg rhwystrau e.e. prif ffyrdd)
- agosrwydd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a'r gallu i gael mynediad atynt
- ansawdd y gwasanaeth cludiant cyhoeddus agosaf

<u>Cysylltedd safle â llwybrau troed cerddwyr fel rhan o rwydwaith ehangach</u>
Wrth asesu safle datblygu posibl ar gyfer cynaliadwyedd, bydd sylw yn cael ei roi i fodolaeth ac ansawdd troedffyrdd cyhoeddus a llwybrau troed i'r safle ac oddi yno yng nghyd-destun yr ardal ehangach.

<u>Cysylltedd safle â Llwybr Teithio Llesol presennol neu arfaethedig fel y dynodwyd gan y Cyngor</u>
Mae PPW11 yn ei gwneud yn ofynnol i Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol lywio dyraniadau safleoedd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i safleoedd y gellir eu cysylltu â llwybrau teithio llesol presennol a rhai sydd wedi'u rhaglennu. Dylai ystyriaeth yn nodi agosrwydd at lwybrau a nodir yn y Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer Torfaen. Ym mhob achos, bydd gallu cerddwyr a beicwyr i gyrraedd y Rhwydwaith Teithio Llesol yn cael ei sefydlu gyda phellteroedd mewn metrau.

<u>Agosrwydd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a'r gallu i gael mynediad atynt</u>

Gan ddefnyddio pellter cerdded delfrydol uchaf o 800 metr ar y cyd ag adnodd GIS y Cyngor ac OpusMap sy'n cynnwys arosfannau a llwybrau bysiau wedi'u plotio, gellir nodi'r cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus agosaf ar gyfer safle. Rhaid mesur pellter i'r arosfannau bysiau / gorsaf drenau agosaf o ran bellaf y safle ar hyd llwybrau troed. Bydd pellterau'n fwy na 800 metr yn cael eu pwyso fel rhan o'r ystyriaeth o gynaliadwyedd yn gyfan ynglŷn â lleoliad y safle ac amgylchiadau unigol y safle a / neu'r cynnig.

<u>Ansawdd y gwasanaeth cludiant cyhoeddus agosaf</u>
Wrth ystyried lefel y gwasanaeth cludiant cyhoeddus sydd ei angen i sicrhau newid mewn dulliau teithio, mae'r Cyngor o'r farn y byddai gwasanaeth o safon resymol yn cynnwys o leiaf un gwasanaeth yr awr o 7am i 7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn ogystal â gwasanaeth dydd Sul. Ystyrir y gallai'r safon hon o wasanaeth ddarparu ar gyfer cymudo i'r gwaith gydag amrywiad ar gyfer siopa / digwyddiadau cymdeithasol a theithiau hamdden ar y penwythnos. O ran dewis o gyrchfan, os yw Cwmbrân neu Bont-y-pŵl yn hygyrch trwy wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, ystyrir eu bod yn dderbyniol fel Aneddiadau Cynaliadwy Categori 1 i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion. Ar gyfer pob anheddiad cyrchfan arall, ystyrir bod dewis o fwy nag un cyrchfan yn angenrheidiol. Er nad yw hyn yn cwmpasu pob digwyddiad, ystyrir ei fod yn ddull rhesymol at ddibenion yr CCA hwn. Eto, bydd gwasanaethau nad ydynt yn cwrdd â'r safon yma'n cael eu pwyso fel rhan o'r ystyriaeth cynaliadwyedd cyfan mewn perthynas â lleoliad y safle ac amgylchiadau unigol y safle a/ neu'r cynnig.

4.12 Bydd y Cyngor yn defnyddio Teclynnau Archwiliad Llwybrau Seiclo a Cherdded Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfarwyddyd o ran asesu diogelwch cyfleoedd teithio llesol. Ar gyfer Llwybrau Cerdded, mae yna gategorïau yn ymwneud â dengarwch (cynnal, ofn trosedd, sŵn traffig a llygredd), cysur (cyflwr, lled y llwybr troed, lles ar groesfannau / ynysoedd i gerddwyr / llochesi, parcio ar lwybr troed, graddfeydd) natur uniongyrchol (darpariaeth llwybr troed, lleoli croesfannau mewn perthynas i linellu dymuniad, bylchau mewn traffig (ble nad oes croesfannau wedi eu rheoli neu os yw'n debygol o groesi y tu allan i groesfan wedi ei rheoli), effaith croesfannau wedi eu rheoli ar amser taith, amser dyn gwyrdd), diogelwch (pwysau traffig, cyflymder traffig, gwelededd a chydlyniad (ymylon palmant wedi eu gostwng a cherrig cyffyrddol, arwyddbostio).

4.13 Ar gyfer Llwybrau Seiclo, y categorïau archwiliad yw cydlyniant (cysylltiadau, parhad a chanfod ffordd, dwyster y rhwydwaith), natur uniongyrchol (pellter, amser: amlder mannau aros neu ildio gofynnol, amser: oedi wrth gyffyrdd, amser: oedi wrth ddolenni, graddfeydd, diogelwch (lleihau / tynnu i ffwrdd gwahaniaethau cyflymder pan fo beicwyr yn rhannu'r briffordd, osgoi niferoedd uchel o draffig pan fo beicwyr yn rhannu'r briffordd, perygl o wrthdrawiad, osgoi dyluniad cymhleth), cysur (ystyried a lleihau risg o weithgaredd ymyl y ffordd, lleihau difrifoldeb gwrthdrawiadau ble maen nhw'n digwydd, ansawdd yr wyneb, lled effeithiol heb wrthdaro, canfod ffordd), dengarwch (diogelwch cymdeithasol bregusrwydd tybiedig y defnyddiwr, effaith ar gerddwyr, gan gynnwys pobl ag anableddau, lleihau cynnwys ar y stryd, parcio diogel i feiciau)

**Ystyriaethau Cynaliadwyedd Lleoliad CBST**

4.14 Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r ddau gategori hyn o elfennau cynaliadwyedd, er eu bod yn gwbl ddymunol, gael eu cywasgu i restr o gyfleusterau dyddiol arferol a ddylai fod ar gael yn ddiogel o fewn 800 metr fel a ganlyn:

- Siop gyfleus gyda chyfleuster Paypoint (o leiaf 235m$^2$ o ofod llawr i ddarparu ystod resymol o ddarpariaethau dyddiol yn hytrach na siop cornel/pantri)
- Man agored hamdden / amwynder
- Ysgol(ion) cynradd neu uwchradd lleol
- Fferyllfa neu Feddygfa
- Mynediad i wasanaeth cludiant cyhoeddus o ansawdd rhesymol (1 gwasanaeth/awr, 7am -7pm, gwasanaeth dydd Sul)

- Mynediad i'r Rhwydwaith Teithio Llesol presennol neu wedi'i raglennu

4.15 Dylai unrhyw gynnig (cyn-ymgeisio neu gais cynllunio) ar gyfer datblygiad preswyl newydd ddod gyda Datganiad Lleoliad Cynaliadwy sy'n nodi sut mae'r safle arfaethedig yn bodloni'r ystyriaethau yma.

4.16 Mae ystyried diogelwch yn cynnwys asesiad o arwynebu, traenio, goleuo ac edrych dros ymhlith agweddau eraill a nodir uchod a fydd yn cael eu hystyried fesul achos. Gwneir nodyn penodol o rwystrau, er enghraifft diffyg llwybrau troed neu brif ffyrdd a allai ddarbwyllo yn erbyn y defnydd o ffordd.

4.17 Bydd pellterau at gyfleusterau neu wasanaethau sy'n fwy na 800 metr yn cael eu pwyso gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad fel rhan o ystyriaeth cynaliadwyedd yn gyfan gwbl ynglŷn â lleoliad y safle a'r tebygrwydd o ddibyniaeth ar gar i deithio, gan ystyried amgylchiadau unigol y safle a/ neu'r cynnig ble mae'n briodol. Lle bo cyfleusterau o'r fath yn agos ond bod y mynediad yn wael e.e. graddiant serth, diffyg llwybrau troed, cymerir dull pragmatig o ran rhinweddau unigol y sefyllfa er mwyn canfod pa mor debygol yw hi y bydd deiliaid preswyl yn gwneud teithiau byrrach drwy ddulliau teithio llesol. Gallai datblygwr wirfoddoli cynllun teithio llesol i wella'r tebygrwydd y bydd meddianwyr preswyl yn defnyddio cyfleusterau teithio llesol / lleol sy'n bodoli ac felly cynnig peth lleddfu ble mae hynny'n bosibl.

4.18 Lle nad oes cyfleusterau o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd ond y gellid eu darparu fel rhan o'r datblygiad, dylai'r rhain fod yn ofynnol a chael eu sicrhau naill ai drwy amodau cynllunio neu drwy rwymedigaethau cynllunio fel y bo'n briodol. Nodir hefyd y gallai datblygiad newydd ddod â buddsoddiad i wella diffygion presennol mewn cynaliadwyedd mewn lleoliad a byddai unrhyw fuddion lleol a / neu ehangach yn ystyriaeth berthnasol i'w hystyried gan y sawl sy'n gweud penderfyniadau.

4.19 Mae'r safleoedd hynny na allant ddangos eu bod yn cydymffurfio'n ddigonol o ran ystyriaethau lleoliad cynaliadwy, efallai'n codi gwrthwynebiad polisi ar sail cynaliadwyedd. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol a rhoddir pwysau priodol gan y sawl sy'n penderfynu wrth ddod i gasgliad ynghylch cynnig/safle. Mewn amgylchiadau lle rhoddir mwy o bwys ar ystyriaethau perthnasol eraill, manylir ar y casgliad hwn yn y llythyr cyngor cyn ymgeisio, neu adroddiad cais cynllunio fel y bo'n briodol. Ym mhob amgylchiad, byddai'r Cyngor yn annog ymgysylltu ar y cam cynharaf o ystyried y safle gyda chais am gyngor cyn ymgeisio.

## 5. Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt

5.1 Mae rhagor o wybodaeth i'w chael am gynaliadwyedd safleoedd datblygu yn y dogfennau canlynol:

OpusMap https://torfaen.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/torfaen-masterplanning-map#/center/51.694,-3.0414/zoom/13/baselayer/b:31/layers/

Canllaw Creu Lleoedd 2020 (Comisiwn Dylunio Cymru) - https://dcfw.org/wp-content/themes/dcfwchild/assets/PlacemakingGuideDigitalENG.pdf

Mapio Teithio Llesol CBST - https://datamap.gov.wales/maps/active-travel-network-maps/view?center=-3.1391008048778564,51.71690405429319&zoom=5#/

Gwefannau Gweithredwyr Bysiau:
Phil Anslow & Sons Coaches - www.philanslowcoaches.co.uk/bus-services
Stagecoach Bus - www.stagecoachbus.com/timetables
Newport Transport Limited - www.newportbus.co.uk

Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (hyd at 2021) (2013) Datganiad Ysgrifenedig - https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/Adopted-Torfaen-LDP-Writen-Statement.pdf

Map Cynigion Gogledd CDLl Mabwysiedig Torfaen - https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/P3-TORFAEN-PROP-MAP-NORTH-14.pdf

Map Cynigion De CDLl Mabwysiedig Torfaen - https://www.torfaen.gov.uk/ên/Related-Documents/Forward-Planning/P3-TORFAEN-PROP-MAP-NORTH-14.pdf <https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/P3-TORFAEN-PROP-MAP-SOUTH-14.pdf>

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Fersiwn 3 (2020) - https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf

Polisi Cynllunio Cymru 11 (2021) - https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Polisi Cynllunio Cymru: Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020) - https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016) (TAN12) - https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/tan12-design.pdf

CBS Torfaen: SPG Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (2023) - <https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/SD84-AdoptedPlanningObligationsSupplementaryPlanningGuidance.pdf>

Canllawiau Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer Chwaraeon Awyr Agored a Chwarae Cymru (2017) - Guidance-for-Outdoor-Sport-and-Play-Wales.pdf (fieldsintrust.org)

Planning for Walking (Chartered Institute for Highways and Transportation) (2015) https://www.ciht.org.uk/media/4465/planning_for_walking_-_long_-_april_2015.pdf

**CBS** Torfaen : TCBC / CSS Wales: Wales Parking Standards (2014) https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/ADOPTED-TCBC-Wales-Parking-Standards-2014-Sept-2016.pdf

Offer Archwilio Llwybrau Cerdded a Beicio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru - https://www.gov.wales/active-travel-act-guidance-walking-and-cycling-route-audit-tools-appendix-h

**Manylion Cyswllt**

5.2 Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r SPG hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ldp@torfaen.gov.uk.

Am ymholiad cyn cais neu gais cynllunio, defnyddiwch planning@torfaen.gov.uk